YMDDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL DYFED CYFYNGEDIG

ADRODDIAD A CHYFRIFON YR YMDDIRIEDOLWYR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010





ymddiriedolaeth archaeolegol
DYFED
archaeological trust

ABERTEIFI
CARDIGAN

Neuadd y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Gaerfyrddin
SA19 6AF

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2010

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad blynyddol a chyfrifon ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010.

GWYBODAETH GYFREITHIOL A GWEINYDDOL

Prif Weithgarwch

Nod yr Ymddiriedolaeth yw gwella addysg y cyhoedd ym maes archaeoleg.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i wella dealltwriaeth, diogelwch a hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol ac mae ganddi ymrwymiad rhanbarthol cryf i dde-orllewin Cymru. Nod yr Ymddiriedolaeth yw meithrin gwell **ddealltwriaeth** o'r amgylchedd hanesyddol drwy gynnal a hyrwyddo gwaith ymchwil, arolygu ac ymchwilio. Nod yr Ymddiriedolaeth yw gwella proses **reolaeth a chadwraeth** effeithiol yr amgylchedd hanesyddol er mwyn i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol ei astudio a'i fwynhau. Nod yr Ymddiriedolaeth yw **codi ymwybyddiaeth** am yr amgylchedd hanesyddol a hyrwyddo mynediad ffisegol a deallusol drwy raglenni addysgol ac allgymorth.

Cyfansoddiad

Mae Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddi gyfalaf cyfrannau (rhif 1198990) ac mae'n elusen gofrestredig (rhif 504616). Y dogfennau llywodraethu yw'r Memorandwm ac Erthyglau'r Gymdeithas 4 Gorffennaf 1975. Mae'r Ymddiriedolaeth yn un o blith pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol a sefydlwyd yn wreiddiol yn y 1970au i fod yn gyfrifol am Gymru gyfan.

Ymddiriedolwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gwasanaethu fel Cyfarwyddwyr y cwmni ac fel y cyfryw mae eu hadroddiad yn gyfystyr ag Adroddiad y Cyfarwyddwyr statudol. Gan nad oes unrhyw gyfalaf cyfrannau nid oes gan y Cyfarwyddwyr unrhyw fuddiant yn y cwmni. Mae traean o'r Ymddiriedolwyr yn ymddeol bob blwyddyn ond maent yn gymwys i'w hail-ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gwnaeth y canlynol wasanaethu fel Ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn:

Yr Athro B Burnham
Dr J L Davies
Mr. C J Delaney
Mr. C R Musson (Cadeirydd)
Dr E Plunkett Dillon
Mr R Protheroe Jones

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 9 Hydref 2009, ystyriwyd bod yr Ymddiriedolwr a oedd yn ymddeol, sef Dr J L Davies, o dan Erthygl 41 Erthyglau'r Ymddiriedolaeth, wedi'i ail-ethol. Ym mis Chwefror 2009, derbyniodd Mr R Protheroe Jones a'r Athro B Burnham wahoddiad i ddod yn ymddiriedolwyr (yn unol ag Erthygl 32); cafodd y ddau eu hethol fel Ymddiriedolwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2009.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Bwyllgor Rheoli sy'n bwyllgor dirprwyedig o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Yn ystod y flwyddyn roedd y Pwyllgor Rheoli yn cynnwys yr aelodau uchod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn unig.

Mae'r Ymddiriedolwyr presennol yn adolygu'r aelodaeth yn rheolaidd ac yn cynnig lleoedd i Ymddiriedolwyr i'r aelodau presennol fel y gwelant orau. Caiff ymddiriedolwyr newydd wybodaeth yn manylu ar strwythur, amcanion a pholisïau'r Ymddiriedolaeth ynghyd â llenyddiaeth ar gyfrifoldebau bod yn Ymddiriedolwyr yr Elusen. Mae'r holl ymddiriedolwyr newydd yn cael cyfarfod ymsefydlu gyda'r Prif Weithredwr, sy'n cynnwys adolygiad manwl o strwythur, polisi, trefniadaeth, staffio a rhaglen waith y cwmni/elusen. Caiff ymddiriedolwyr

newydd wybod am yr ystod eang o ganllawiau sydd ar gael gan y Comisiwn Elusennol ar ffurf copi caled a fformat digidol.

Swyddogion a'r Swyddfa Gofrestredig

Yn ystod y flwyddyn Mr K Murphy oedd Ysgrifennydd y Cwmni a Phrif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth.

Mae Swyddfa Gofrestredig yr Ymddiriedolaeth wedi'i lleoli yn Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo, Sir Gaerfyrddin, SA19 6AF. Banc National Westminster ccc, 59 Stryd y Brenin, Caerfyrddin yw banc yr Ymddiriedolwyr. Morris Roberts, 14-15 Stryd Spilman, Caerfyrddin, sy'n gweithio fel cynghorwyr cyfreithiol yr Ymddiriedolaeth. Clay Shaw Butler, Canolfan Ddatblygu Busnes, Caerfyrddin, yw archwilwyr yr Ymddiriedolaeth.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Mae Cyfraith Cwmnïau'n ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi safbwynt gwir a theg o gyflwr yr elusen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'i gwarged neu ei diffyg ar gyfer y flwyddyn ariannol. Wrth wneud hynny mae angen i'r Ymddiriedolwyr:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- a pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai nad yw'n briodol rhagdybio y bydd yr elusen yn parhau i weithredu.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol yr elusen a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 1985 a'u bod yn unol â Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2005. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Aelodaeth yr Ymddiriedolaeth

Mae holl aelodau'r Ymddiriedolaeth, gan gynnwys yr Ymddiriedolwyr, yn cyfrannu eu hamser ac arbenigedd yn ddi-dâl o'u gwirfodd i hyrwyddo nodau elusennol yr Ymddiriedolaeth. Nid yw datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu hyn ond mae gan yr Ymddiriedolaeth gryn ddibyniaeth ar y gwasanaethau ac arbenigedd a ddarperir gan ei haelodau sy'n gwasanaethu fel Ymddiriedolwyr neu aelodau'r Pwyllgor Rheoli, ynghyd â'r cyngor gwerthfawr a chyfraniadau arbenigwyr at brosiectau unigol a ddarperir gan aelodau unigol eraill.

Gellir ymaelodi â'r Ymddiriedolaeth drwy wahoddiad yr Ymddiriedolwyr; mae'n wahoddiad personol ac nid oes modd ei drosglwyddo. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd 44 o aelodau. Mae rhestr lawn o aelodau ar 31 Mawrth 2010 i'w gweld yn Atodiad A.

Adeiladau'r Ymddiriedolaeth

Yn ogystal â Neuadd y Sir yn Stryd Caerfyrddin, y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei phrydlesu gan Gyngor Tref Llandeilo Fawr, mae'r Ymddiriedolaeth yn berchen ar Dŷ Leicester, sydd hefyd wedi'i leoli yn Stryd Caerfyrddin.

Staff

Nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn oedd 23. Mae rhestr lawn o staff ar 31 Mawrth 2010 i'w gweld yn Atodiad B. Mae'r Ymddiriedolwyr am ddiolch i staff yr Ymddiriedolaeth am eu hymrwymiad a'u hymdrechion yn ystod y flwyddyn.

Hyfforddi staff

Parhaodd rhaglen o arfarniadau staff drwy gydol y flwyddyn. Roedd yr Ymddiriedolaeth wedi annog staff i fynychu cynadleddau ac ysgolion dydd archaeolegol er mwyn bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf yn y maes, a chyflwynodd nifer o ddarparwyr weithdai a seminarau ar amrywiaeth o bynciau yn ystod y flwyddyn.

Ymhlith y cynadleddau, seminarau, cyrsiau ac ysgolion dydd a fynychwyd yn ystod y flwyddyn oedd: Digwyddiad Archaeoleg Adeiladu, cyfarfod maes y Grŵp Astudio Bryngaerau, Seminar Dehongli Treftadaeth gan Sam Ham, cyrsiau Cymorth Cyntaf, Seminar Treftadaeth Gymunedol, Rheoli Bioamrywiaeth, Cynlluniau amaeth-amgylchedd, Cynhadledd Addoldai Hanesyddol Cymru, Ysgol Ddydd Archaeoleg Sir Benfro, Ysgol Ddydd Archaeolegol Sir Gaerfyrddin, Past for Everyone Lloegr – gan ddod â hanes lleol yn fyw, y Gweithdy Digidol, cwrs Arwain Teithiau Cerdded, a chwrs Marsialiaid Tân. Yn ogystal, darparwyd hyfforddiant mewnol ar gyfer staff ar amrywiaeth o bynciau.

Cofrestru Proffesiynol

Yn ystod y flwyddyn parhaodd yr Ymddiriedolaeth i fod yn **Sefydliad Archaeolegol Cofrestredig Sefydliad yr Archeolegwy**r a chadwodd ei ardystiad fel sefydliad **Buddsoddwr mewn Pobl.**

ADOLYGU GWEITHGAREDDAU'R YMDDIRIEDOLAETH YN YSTOD Y FLWYDDYN

GWAITH YMCHWIL AC YMCHWILIO ARCHAEOLEGOL

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol gwnaed ystod eang o waith, gan gynnwys asesiadau a chloddfeydd mewn perthynas â bygythiadau a gynhaliwyd â chymorth grant Cadw, a nifer o arolygon eraill wedii'u hariannu, goruchwylion gwylio, gwerthusiadau, asesiadau o'r ddesg a phrosiectau cofnodi.

Cynhaliwyd dau **Brosiect Gwella Amserlennu** â chymorth grant Cadw gyda'r diben o asesu pwrpas asesu holl safleoedd Rhufeinig a chynhanesyddol ar hyd a lled Cymru erbyn 2010. Ymwelwyd â thros 170 o safleoedd yn Sir Benfro, roedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u lleoli ar rostir agored Mynyddoedd Preseli. Roedd ansawdd y safleoedd yn hynod uchel ac roedd yn cynnwys aneddiadau canoloesol a systemau maes a gadwyd mewn cyflwr da, ac o ganlyniad gwnaed nifer o argymhellion amserlennu i Cadw. Mewn gwrthgyferbyniad, roedd ansawdd y safle yng Ngheredigion yn wael, a chan mai dim ond 30 o safleoedd a nodwyd fel rhai a oedd yn deilwng o ymweliadau maes, dargyfeiriwyd adnoddau, gyda chytundeb Cadw, at arolwg manylach ar Fynyddoedd y Preseli.

Arolygon Geoffisegol – sicrhaodd brosiectau dilynol i asesiadau safleoedd **Angladdol a Defodol Cynhanesyddol** a gynhaliwyd â chymorth grant Cadw ganlyniadau da yng nghrugiau crwn **Fan,** Tal-sarn, Ceredigion a grwpiau o grugiau crwn yn **Nhrichrug**, Tre-lech, Sir Gaerfyrddin. Datgelwyd gweddillion cymhleth, sy'n dyddio o gyfnod cynhanesyddol yn ôl pob tebyg, yn ystod gwaith arolygu pellach yng nghrugiau crwn **Creigiau Cemais**, Nanhyfer, Sir Benfro. Yn dilyn arolygu geoffisegol y flwyddyn flaenorol, cynhaliwyd cloddio sampl ar ddau grug crwm ym Mhant-y-Bwtler, Llangoedmor, Ceredigion; canfuwyd gweddillion amlosgiad ar y safle ac amlosgiad y torrwyd ar ei

Duncan Schlee, cyfarwyddwr y safle yn rhoi cyfarwyddyd i'r gwirfoddolwyr sy'n cloddio claddfa ym Mhorth Clew

draws.

Cafodd ail dymor o gloddio ei gynnal â chymorth grant gan Cadw ym **Mhorth Clew**, Sir Benfro, fel rhan o Brosiect Mynwentydd Canoloesol Cynnar. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar anheddiad o amgylch y capel gyda gwaith cloddio'n datgelu adeiladau cerrig a phren, sy'n dyddio o gyfnod canoloesol, yn ôl pob tebyg. Mae dyddiadau radiocarbon yn awgrymu i'r safle gael ei ddefnyddio o'r 5ed ganrif CC hyd at y 11fed ganrif OC.

Roedd prosiect Ymylon Gwlypdiroedd yn canolbwyntio ar **Gors Caron** yng Ngheredigion ganol. Cyflawnwyd amcan y prosiect – sef nodi, nodweddu ac asesu archaeoleg ymyl y gors – yn llwyddiannus a bydd y canlyniadau'n cyfrannu at gynllun rheoli'r gors Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Darparodd Cadw gymorth grant ar gyfer **Arfordir**, sef prosiect peilot a gynhaliwyd ar y cyd â phrosiect tebyg a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd i ymgysylltu cymunedau â nodi a chofnodi safleoedd archaeolegol arfordirol. Darparwyd nifer o deithiau cerdded, cyflwyniadau, arddangosiadau a sesiynau hyfforddiant a chynhaliwyd claddfeydd llwyddiannus wythnos o hyd mewn pentref diffaith ar y draethlin yn Llanismel, Sir Gaerfyrddin.

Roedd blwyddyn gyntaf y prosiect **cloddfeydd metel**, a gynhaliwyd mewn partneriaeth ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru a CBHC yn cynnwys rhoi data a gasglwyd ar ddechrau'r 1990au ac yn 2009-10 yn y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol. Rhagwelir y bydd y prosiect hwn yn arwain at gyhoeddi'r canlyniadau cynhwysfawr hyn.

Arddangosiad naddu fflint a roddwyd i gyfranogwyr ym mhrosiect Arfordir yn Nhyddewi

Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth brosiectau ar gyfer nifer o gleientiaid eraill – datblygwyr cyhoeddus a phreifat, awdurdodau unedol, asiantaethau'r llywodraeth, sefydliadau gwirfoddol ac ymgynghorwyr. Cafodd y rhan fwyaf o'r rhain eu cynnal yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Roedd prosiectau'n cynnwys cloddio, gwerthuso, cofnodi adeiladau, arolygu tirweddu, asesiadau o'r ddesg a gorchwylion gwylio a oedd yn amod cysynio cynllunio'n aml. Mae'r crynodeb canlynol yn rhoi detholiad o brosiectau mwy arwyddocaol. Mae rhestr lawn o'r holl brosiectau, gan gynnwys cleientiaid, i'w gweld yn Atodiad C.

Cwblhawyd dadansoddi ôl-gloddio a lluniwyd adroddiad a gyhoeddir drafft ar gloddio safle toddi haearn ac anheddiad o gyfnod canoloesol cynnar yn **South Hook**, Sir Benfro. Rhagwelir y caiff yr adroddiad ei gyhoeddi yn ystod 2010. Lluniwyd adroddiad a gyhoeddir diwygiedig ar gloddio caer bentir **Porth y Rhaw**, Sir Benfro, a pharhaodd gwaith ar adroddiadau a gyhoeddir ar y llwybr canoloesol yn **Llangynfelyn**, Ceredigion a **Chrug Brownslade**, Sir Benfro. Cwblhawyd dyluniadau ar gyfer rhifyn newydd o'r **Roman Frontier in Wales.**

Roedd cloddfeydd ar lwybr **osgoi Robeston Wathen yr A40**, Sir Benfro, yn cynnwys ymchwilio i grug a losgwyd, dyddiadau radiocarbon sy'n dangos cyfnod hir o ddefnydd o'r cyfnod Neolithig at y cyfnod canoloesol cynnar. Darganfuwyd safle gwaith fflint o gyfnod Mesolithig, tystiolaeth o doddi haearn o gyfnod canoloesol cynnar a gweithgarwch o'r Oes Efydd ar safle gerllaw. Ym **Mharc Dinefwr**, Sir Gaerfyrddin, yn anffodus ni lwyddodd cloddfeydd 2009 i leoli olion adeilad y tybiwyd ei fod yn deillio o'r cyfnod Rhufeinig.

Cynhaliwyd nifer o gloddfeydd. Yng **Ngerddi Crymlyn**, Sgiwen, Abertawe, ymchwiliwyd i olion fferm o'r 18fed ganrif. Ni ddaethpwyd o hyd i fawr ddim o ddiddordeb archaeolegol mewn 22 o

ffosydd a gloddiwyd ar hyd llinell pibellau nwy arfaethedig yn **Aberdaugleddau**. Yn y **Sianti**, Penlle'r-gaer, Abertawe, dangosodd y ffosydd nad oedd unrhyw beth ar ôl o dŷ haf/tŷ cychod.

Cynhaliwyd dros 50 o orchwylion gwylio yn ystod y flwyddyn ar ystod eang o safleoedd. Yn Hwlffordd dangosodd gorchwyl gwylio wrth adeiladu maes parcio ar dir **Tŷ Foley** nodweddion canoloesol ac ôl-ganoloesol mewn lleiniau bwrdeisiaeth flaenorol.

Gwnaeth cofnodi adeiladau ar raddfa fach yn **Rhoson**, Tyddewi a **Philbeach**, Date, helpu i lunio cronoleg ar gyfer y tai bach ond pwysig hyn. Mae rhaglen waith hirach o waith yng **Nghastell y Garn** wedi ychwanegu at ddealltwriaeth o'r castell canoloesol bach hwn.

Mae arolygu geoffisegol yn parhau i fod yn elfen lwyddiannus y gwasanaethau archaeoleg a ddarparwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Cafwyd canlyniadau da yn **Templeton**, Sir Benfro, lle y canfuwyd tystiolaeth am adeiladau a ffiniau eiddo o gyfnod canoloesol o bosibl. Yn **Pill Rath**, Aberdaugleddau, arolygwyd tai crwm a nodweddion cyn-hanesyddol a oedd yn gysylltiedig â bryngaer.

Comisiynwyd tua 20 o asesiadau o'r ddesg cyn datblygiadau posibl gan gynnwys rhai ar gyfer ffermydd gwynt yn ne-orllewin Cymru a thu hwnt.

Chwilota'r Tywi! Parhaodd elfen ymchwilio i'r dirwedd Prosiect Tywi Afon yr Oesoedd, sef prosiect tirweddau cymunedol wedi'i leoli o gwmpas Llandeilo, gyda nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus. Roedd y rhain yn cynnwys cloddfeydd, arolygon o fynwentydd, arolygon adeiladau ac arolygon o berthi yn ogystal â chyflwyniadau, sesiynau hyfforddiant a chyfarfodydd.

ADDYSG A CHYHOEDDIADAU

Mae holl waith ymchwil ac ymchwiliadau archaeolegol yr Ymddiriedolaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at godi ymwybyddiaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru. Fodd bynnag, anelir nifer o brosiectau a gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth yn benodol at godi'r ymwybyddiaeth hon. Diweddarwyd **Strategaeth Allgymorth** yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn ac mae'n parhau i gyfrannu at fodloni amcan elusennol yr Ymddiriedolaeth – addysgu'r cyhoedd am archaeoleg – a'i rôl o ran hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol fel un o ased gorau Cymru.

Treftadaeth Gymunedol

Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gydnabod yr angen am hyrwyddo a dehongli'r amgylchedd hanesyddol ar lefel gymunedol. Mae 'Archaeoleg Gymunedol' neu 'Archaeoleg i Bawb' yn dod yn fwyfwy pwysig ar hyd a lled Prydain, gyda chydnabyddiaeth y gall y proffesiwn wneud cyfraniad pwysig at nifer yr amcanion economaidd a chymdeithasol presennol gan gynnwys allgau cymdeithasol, iechyd cyhoeddus ac addysg, twristiaeth ac adfywio economaidd. Mae'r sector hefyd yn cael cyfle i fanteisio ar y proffil uchel sydd gan archaeoleg yn y cyfryngau ar hyn o bryd.

Gwnaeth nifer o brosiectau ymgysylltu'n llwyddiannus ag aelodau cymunedau lleol, myfyrwyr ac eraill sydd â diddordeb mewn archaeoleg, gan ddarparu cyfleoedd dysgu ar gyfer nifer fawr o unigolion. Roedd ymgysylltu cymunedol yn nod benodol **Chwilota'r Tywi!** a sicrhawyd hyn yn llwyddiannus drwy gyfres o ddigwyddiadau a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn. Gwnaeth aelodau cymunedau lleol gymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnwyd fel rhan o **Arfordir**, gyda chloddio yn Llanismel, Sir Gaerfyrddin, yn un o uchafbwyntiau'r prosiect.

Roedd angen cyfyngu ar leoedd i wirfoddolwyr yng nghloddfa **Porth Clew**, Sir Benfro, oherwydd y galw, ac roedd lefel uchel tebyg o ddiddordeb gan y gymuned leol i fod yn rhan o'r cloddio ym **Mhant-y-bwtler**, Ceredigion. Gwnaeth aelodau o'r gymuned leol gymryd rhan hefyd mewn gwaith maes ym **Mharc Dinefwr**, Sir Gaerfyrddin, a **Chors Caron**, Ceredigion. Gwnaeth yr Ymddiriedolaeth ddarparu elfen allgymorth prosiect **Castell Nanhyfer**, sef prosiect partneriaeth yn cynnwys Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Phrifysgol Durham.

Paneli a Thaflenni Dehongli Treftadaeth

Mae darparu paneli dehongli treftadaeth yn parhau i fod yn agwedd, er ei bod yn dirywio, ar hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol yn y rhanbarth. Yn ystod y flwyddyn cwblhawyd neu parhawyd gwaith ar gyfres o baneli i **Dycroes**, Sir Gaerfyrddin, **Nant-y-Ci**, Sir Gaerfyrddin, **Bedd Taliesin**, Ceredigion a **Chastell Cogan**, Sir Gaerfyrddin.

Arddangosfeydd, arddangosiadau a diwrnodau agored

Cynhaliwyd llawer o ddiwrnodau agored ac arddangosfeydd fel rhan o Chwilota'r Tywi! Yn ogystal â'r rhain roedd gan yr Ymddiriedolaeth bresenoldeb a darparodd arddangosiadau neu arddangosfeydd mewn nifer o ddigwyddiadau megis **Wythnos Dysgwyr Oedolion Tyddewi**, Diwrnod **Canoloesol Aberteifi**, Diwrnod **Tiroedd Comin Tyddewi**, Diwrnod **Treftadaeth Geobarc** Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a diwrnod treftadaeth **'Cloddio am Hanes yng Nghwmrheidol'**

Mae gan gloddio archaeolegol y gallu i ddenu sylw'r cyhoedd, gan godi ymwybyddiaeth yn uniongyrchol am dreftadaeth y gymuned a thrwy ymestyn treftadaeth Cymru, a hefyd gwaith yr Ymddiriedolaeth. Felly mae'r Ymddiriedolaeth bob amser yn awyddus i achub ar y cyfle y mae cloddio'n ei gynnig i hyrwyddo treftadaeth. Cyflawnwyd hyn yn llwyddiannus mewn nifer o gloddfeydd a gynhaliwyd fel rhan o **Chwilota'r Tywi!**. Hefyd ym **Mhorth Clew** lle y cynigiwyd teithiau dyddiol i bobl leol ac ymwelwyr yn ystod y prosiect tair wythnos, ym **Mhant y Bwtler** lle y darparwyd mwy o deithiau anffurfiol, ym Mharc Dinefwr, ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, lle y darparwyd teithiau tywysedig, ym **Mharc Dinefwr**, ar y cyd â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, lle y darparwyd teithiau tywysedig o'r cloddfeydd, ac yn y cloddfeydd yng **Nghastell Nanhyfer**.

Darlithoedd, Cyflwyniadau a Chyfarfodydd



Arddangosiadau ac arddangosfeydd a ddarparwyd yn ystod Ysgol Ddydd Archaeolegol Sir Benfro

Yn debyg i'r blynyddoedd blaenorol, parhaodd staff i roi darlithoedd, cyflwyniadau a theithiau cerdded tywysedig i ystod eang o sefydliadau, a chyflwynwyd papurau mewn nifer o weithdai, cynadleddau a seminarau. Trefnwyd cyfanswm o dros 60 o gyflwyniadau a theithiau cerdded tywysedig drwy gydol y flwyddyn. Darperir rhestr am y digwyddiadau hyn yn Atodiad D. Fwyaf amlwg oedd cyfres o gyflwyniadau a roddwyd gan staff yr Ymddiriedolaeth ac eraill yn **Ysgol Ddydd Archaeolegol Sir Gaerfyrddin**, y daeth dros 50 o bobl iddi, a chweched **Ysgol Ddydd Archaeolegol Sir Benfro** flynyddol, a drefnwyd gan Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro gyda chefnogaeth yr Ymddiriedolaeth. Roedd yr olaf yn cynnwys cyflwyniadau gan staff yr Ymddiriedolaeth a chafodd lawer o gefnogaeth, gyda thros 140 o bobl yn bresennol.

Fel rhan o'r **Cynllun Henebion Cludadwy** gwnaeth yr Ymddiriedolaeth ymgysylltu a chyfarfod â grwpiau ac unigolion canfod metel lleol, a pharhaodd i gofnodi arteffactau a ganfuwyd yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal, roedd aelodau unigol o staff yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chynrychioli'r Ymddiriedolaeth ac at gyfrannu at weithgareddau nifer fawr o sefydliadau a grwpiau allanol a grwpiau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol: er enghraifft: Pwyllgor Sefydliadau Archaeolegol Cofrestredig Sefydliad yr Archaeolegwyr Maes; Grŵp Peirianyddol Arfordir Bae Abertawe a Chaerfyrddin; Grŵp Peirianyddol Arfordir Bae Aberteifi; Grŵp Llywio Prosiectau

Treftadaeth PLANED; Fforwm y Dreftadaeth Adeiledig; Grŵp Rhanddeiliaid Castell Henllys; Pwyllgor Cynghori Esgobaeth Tyddewi; Cyfarfod Bwrdd Tywi Afon yr Oesoedd; Grŵp Astudio'r Bryngeyrydd; Cyfarfod Cydsyniad Archeolegwyr y Parc Cenedlaethol; Pwyllgor Gweithredol Natur; a nifer o gymdeithasau a grwpiau hanes lleol ac archaeolegol. Yn ystod y flwyddyn gwnaeth staff yr ymddiriedolaeth fynychu dros 350 o gyfarfodydd.

Adroddiadau a Chyhoeddiadau

Cyhoeddwyd llyfryn yn dathlu treftadaeth **Aberteifi***: — 900 mlynedd o hanes yng nghartref yr Eisteddfod* — mewn pryd i ddathlu 900 mlynedd er sefydlu Aberteifi. Cyhoeddwyd nifer o bapurau a chyfraniadau byr yn *Archaeology in Wales*, ac ymddangosodd y ddau bapur ar ffurf monograff er cof am Terry James. Gwnaed gwaith ar adroddiadau academaidd eraill yn ystod y flwyddyn i'w cyhoeddi yn 2010-11.

Cyhoeddwyd erthyglau hefyd mewn cylchgronau, cyfnodolion a chylchlythyrau megis The Archaeologist, Cylchlythyr y Gymdeithas Meteleg Hanesyddol, Life and Gridline Sir Gaerfyrddin Cylchgrawn Rhoddwyr Grantiau'r Grid Cenedlaethol.

Yn ogystal, gwnaeth staff yr Ymddiriedolaeth lunio dros 90 o adroddiadau mewnol yn amrywio o adroddiadau hir ar asesiadau sy'n gysylltiedig â bygythiadau a gynhelir â chymorth grant Cadw i adroddiadau byrrach o ychydig o dudalennau'n unig ar orchwylion gwylio archaeolegol.

Lluniwyd pedwar cylchlythyr yn ystod y flwyddyn a chawsant eu dosbarthu'n eang. Gwnaed cyfraniadau hefyd at gylchlythyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro sef **Adolygu'r Amgylchedd Hanesyddol.**



Mae rhestr lawn o gyhoeddiadau i'w gweld yn Atodiad D.

Addysg a Chymorth Hyfforddiant Prifysgol

Darparwyd hyfforddiant i fyfyrwyr a phobl eraill a oedd yn cymryd rhan yn y cloddfeydd ym **Mhorth Clew, Parc Dinefwr** a **Phant-y-bwtler**, a pharhawyd i gynnig cyfleoedd i fyfyrwyr a lleoliadau eraill yn swyddfeydd yr Ymddiriedolaeth.

Gwefan

Parhaodd gwefan yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu, gydag ychwanegiadau rheolaidd yn cael eu gwneud yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn llwyddiant dyddiaduron cloddio blynyddoedd blaenorol, darparwyd diweddariadau dyddiol tebyg i wefannau gyda lluniau ar gyfer y cloddfeydd ym **Mharc Dinefwr, Porth Clew a Phant-y-bwtler a Chastell Nanhyfer.**

Mae'r wefan yn adnodd addysg ac ymchwil hynod werthfawr ac mae'n darparu dull effeithiol o ledaenu gwybodaeth am bob agwedd ar waith yr Ymddiriedolaeth. Mae nifer fawr yr ymwelwyr

sy'n defnyddio'r cyfleuster - dros 160,000 o ymweliadau yn 2009-2010 - yn fodd o fesur ei lwyddiant. Cyfeiriad y wefan yw **www.dyfedarchaeology.org.uk**

Y Wasg/Cyfryngau

Ymddangosodd nifer o brosiectau gan yr Ymddiriedolaeth yn y cyfryngau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys teledu, radio a phapurau newydd lleol a chyfnodolion. Cafodd **Chwilota'r Tywi!**, **Arfordir** a **Chastell Nanhyfer**, y rhan fwyaf o'r sylw, gydag erthyglau mewn papurau lleol ac eitemau ar y radio a'r teledu lleol/cenedlaethol.

Gwnaeth staff gymryd rhan hefyd mewn nifer o gyfweliadau radio yn hysbysebu digwyddiadau ar y gweill gan yr Ymddiriedolaeth neu'n disgrifio darganfyddiadau archaeolegol diweddar.

GWASANAETHAU ARCHAEOLEGOL

Roedd isadran Gwasanaethau Archaeolegol yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys dwy elfen; cynnal a chadw a datblygu **Cofnod Amgylchedd Hanesyddol** rhanbarthol yr Ymddiriedolaeth, a ariannwyd yn rhannol gan CBHC; a Gwasanaethau Curadurol, rhoi cyngor i gyrff unedol a chyrff statudol ac anstatudol ar ddiogelu a chadw'r amgylchedd hanesyddol. Mae'r ddau wasanaeth hyn yn gyfrifol am ardaloedd awdurdodau unedol **Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin**, yn ogystal â **Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro** a rhan o **Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**.

Parhaodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol i roi cymorth ariannol ychwanegol i roi cyngor am yr Amgylchedd Hanesyddol ar reoli a hyrwyddo archaeoleg **Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro**. Rhoddwyd y cymorth hwn ar waith gan grant Cadw ar gyfer gweithredu rhaglen waith rheoli yn ymwneud â Henebion Cofrestredig yn y Parc Cenedlaethol. Galluogodd yr adnoddau hyn i'r Ymddiriedaeth gyflogi **Archaeolegydd Parc** llawn amser.

Darparwyd cymorth grant parhaus i roi Cyngor Cynllunio Archaeolegol (yn ychwanegol at gymorth grant Cadw) gan bob un o'r pum Awdurdod Cynllunio Lleol yn y rhanbarth: Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro; Cyngor Sir Penfro; Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; Cyngor Sir Caerfyrddin; a Chyngor Sir Ceredigion. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn ddiolchgar iawn i'r Awdurdodau am y cymorth hwn, sy'n helpu i sicrhau bod modd cynnal y lefel uchel o wasanaeth a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth.

Darparwyd cymorth grant parhaus ar gyfer cyfraniad cychwynnol yr Ymddiriedolaeth at ddarpariaethau amgylchedd hanesyddol **Cynllun Amaeth-amgylchedd Tir Gofal** Cymru gyfan. Darparwyd rhagor o gymorth grant gan Is-adran Taliadau Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru i dalu cost cynnal ymweliadau â ffermydd ar gyfer nifer penodol o adeiladau yn y cynllun. Mae Tir Gofal yn cael ei ddirwyn i ben yn raddol a bydd cynllun amaeth-amgylcheddol yn ei le, sef **Glastir**. Gwnaeth Cadw dalu am ddigideiddio amlinelliadau polygon rheoli ar gyfer ardaloedd archaeolegol y System Gwybodaeth Ddaearyddol i gyfrannu at y Cynllun newydd hwn; bydd y digideiddio hwn yn parhau tan hanner cyntaf 2010-11.

Darparodd y Comisiwn Coedwigaeth grantiau ar gyfer y ddarpariaeth amgylchedd hanesyddol i gynllun **Coetiroedd Gwell i Gymru**.

Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol

Mae Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol yn cynnwys cofnod papur a chronfa ddata digidol. Parhaodd Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol yr Ymddiriedolaeth a'i staff eraill i roi data newydd i mewn, gan gynnal gwaith cynnal a chadw rheolaidd, gwaith gwneud datblygu ac ymateb i ymholiadau mewnol ac allanol. Ar ddiwedd Mawrth 2010 roedd 76,085 o gofnodion yng Nghofnod yr Amgylchedd Hanesyddol, yn cynnwys 45,562 o gofnodion safleoedd archaeolegol a 30,523 o gofnodion yn ymwneud â gwaith maes a digwyddiadau eraill.

Meddalwedd Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol newydd - parhaodd i gael ei datblygu gan Steve Smith ar ran y pedair Ymddiriedolaeth yng Nghymru. Mae'r feddalwedd hon yn hollbwysig o ran cynorthwyo i wella a chynnal cofnodion amgylchedd hanesyddol yn ogystal â

chaniatáu'r cyhoedd i gael mynediad drwy'r Rhyngrwyd. Bydd staff yr Ymddiriedolaeth nawr yn defnyddio meddalwedd i weld, golygu a chreu cofnodion newydd. Mae elfen y feddalwedd sy'n galluogi'r cyhoedd i weld cofnod yr amgylchedd hanesyddol wedi'i gwblhau ac mae tudalen flaen ar gyfer y wefan wedi'i chreu. Caiff gwefan cofnod yr amgylchedd hanesyddol, o'r enw **Archwilio**, ei lansio ym mis Gorffennaf 2010 yng nghynhadledd Treftadaeth.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i fod yn gysylltiedig â'r broses o gyfnewid data craidd gyda phartneriaid eraill **END** (Cronfa Ddata Genedlaethol Ymestynedig Cymru).

Parhawyd i ddarparu cymorth drwy grant curadurol Cadw i ddarparu gwybodaeth ehangach o gofnod yr amgylchedd hanesyddol a datblygu gweithgareddau allgymorth. Ymdriniwyd â 163 o ymholiadau allanol yn ystod y flwyddyn. Roedd y math o ymholiadau'n amrywio'n sylweddol, gyda rhai'r mwyaf dyrys yn gofyn am lawer iawn o amser staff. Atebwyd y rhan fwyaf ohonynt drwy'r post neu e-bost ond gwnaeth nifer fawr ymweld â chofnod yr amgylchedd hanesyddol wyneb-yn-wyneb.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i fynychu cyfarfodydd gyda'i phartneriaid i weithio tuag at y nodau a amlinellwyd yn y **Fframwaith Strategol ar gyfer Cofnodion sy'n ymwneud ag Amgylchedd Hanesyddol Cymru.**

Ymddiriedolaeth Elusennol Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Dyfed

Sefydlwyd **Ymddiriedolaeth Elusennol Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Dyfed** yn 2008, gydag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed fel y prif Ymddiriedolwr. Pwrpas yr Ymddiriedolaeth newydd hon oedd diogelu Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol at ddefnydd y cyhoedd pe bai Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (y rhiant-ymddiriedolaeth) yn mynd yn fethdalwr. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod i ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn ac ar **15 Ionawr 2010**, llofnodwyd **Gweithred Drosglwyddo**, gan drosglwyddo cofnodion a luniwyd yn ystod y flwyddyn i Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed i Ymddiriedolaeth Elusennol Cofnod Amgylchedd Hanesyddol Dyfed.

Gwasanaethau Curadurol: Cynllunio

Roedd y rhan hon o waith yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud yn bennaf â thasgau rheoli datblygu, er bod rhai ymgynghoriadau a oedd yn effeithio ar safleoedd archaeolegol wedi codi hefyd o'r tu allan i'r system gynllunio. Yn ystod y flwyddyn, hysbyswyd yr Ymddiriedolaeth am 4354 o geisiadau cynllunio. O'r rhain roedd angen arfarnu manwl ar 1962 ohonynt, gan arwain at weithredu pellach mewn 149 o achosion, gan gynnwys argymhellion ar gyfer asesiadau, gwerthusiadau, cloddfeydd a gwaith cofnodi cyn y datblygiad neu ar gyfer gorchwylion gwylio yn ystod y datblygu. Ar un achlysur cafodd yr argymhelliad ei wrthod ar sail archaeolegol. Er bod nifer y ceisiadau cynllunio wedi gostwng er y flwyddyn flaenorol, roedd nifer yr achosion lle roedd angen gweithredu pellach wedi cynyddu. Y gwaith achos hwn sy'n pwyso ar staff fwyaf.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu ei chydberthnasau gwaith da â'r awdurdodau cynllunio rhanbarthol. Mewn ymateb i geisiadau parhaodd Archaeolegydd Cynllunio'r Ymddiriedolaeth i baratoi nodiadau briffio, cytuno ar fanylebau a chynnal ymweliadau monitro ag amrywiaeth o ddatblygiadau.

Roedd adrannau cynllunio strategol neu flaengynllunio'r holl awdurdodau lleol rhanbarthol wedi cyrraedd gwahanol gamau wrth baratoi eu **Cynlluniau Datblygu Lleol**. Gwnaeth staff fynd i'r holl gyfarfodydd i randdeiliaid i sicrhau bod polisïau priodol ar waith i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol.

Roedd gwaith achos parhaus arwyddocaol yn cynnwys rhoi cyngor manwl ar geisiadau yn nhrefi hanesyddol y rhanbarth, mewn aneddiadau hanesyddol eraill ac mewn mannau eraill.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod yn gysylltiedig â rhoi cyngor ar ddwy fferm wynt yn **Nant-y-moch**, Ceredigion a **Mynydd Llanllwni**, Sir Gaerfyrddin. Mae adran treftadaeth ddiwydiannol yr Asesiadau Effaith Amgylcheddol, sy'n seiliedig ar y cyngor hwn ar y gweill. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda Chyngor Sir Penfro ac eraill mewn perthynas â ffordd osgoi arfaethedig ym **Mhenfro** ac argymhellwyd cynnal asesiasd wrth y ddesg. Rhoddwyd caniatâd ar gyfer datblygiad yn Nhreletert, Sir Benfro, heb werthuso cyn penderfynu, yn groes i gyngor yr

Ymddiriedolaeth. Canfu arolygu geoffisegol ar y safle nifer fawr o anghysondebau posibl. Fodd bynnag, dangosodd rhigoli arbrofol fod y rhain yn naturiol ac felly nid oes unrhyw gyfyngu archaeolegol pellach ar y datblygiad. Arweiniodd gwerthuso cyn penderfynu at ddau gais yng Nghoes-goch, Sir Benfro, mewn ardal o gladdfeydd canoloesol cynnar hysbys at argymell gwaith ag amodau pellach ar gyfer un cais a gorchwyl wylio ag amodau ar y llall. Derbyniwyd nifer o geisiadau ar gyfer datblygiadau ym **Mhlas Trawscoed**, Ceredigion, mewn gardd gofrestredig ac yn agos at gaer Rufeinig, ac argymhellwyd gwerthuso cyn penderfynu. Dangosodd y gwerthusiad, er bod celciau Rhufeinig yn bodoli, gellid lliniaru effaith y datblygiad ar y rhain drwy amod cynllunio addas. Argymhellodd yr Ymddiriedolaeth wrthod y cynnig i gael gwared ar y gwaith carreg o Lighterage Quay, Burton Ferry. Mae'r cais wedi'i dynnu'n ôl bellach.

Parhawyd i ddarparu gwybodaeth a chyngor ar faterion rheoli treftadaeth y tu allan i'r fframwaith cynllunio lleol mewn perthynas â choedwigaeth, trin safleoedd cloddfeydd metel, safleoedd arfordirol a gweithrediadau amaethyddol.

Ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i 52 o ymgynghoriadau gan ddiwydiannau gwasanaeth, gan gynnwys cynlluniau gan **Ddŵr Cymru** ac **Asiantaeth yr Amgylchedd**. Comisiynwyd yr Ymddiriedolaeth i weithredu fel curadur archaeolegol i gynllun gwella ffordd yr A40 o Benblewin i Slebets, Sir Benfro.

Darparwyd gwybodaeth am 10 **Hysbysiad Tynnu Perthi** ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Yr un fath â'r blynyddoedd blaenorol, ac ar gais Cadw, parhaodd yr Ymddiriedolaeth i roi sylwadau ar **Geisiadau am Ganiatâd Henebion Cofrestredig**.

Cloddio tomen gyn-hanesyddol a losgwyd ar gynllun ffordd yr A40 o Benblewin i Slebets.

Gwasanaethau Curadurol: Rheoli Treftadaeth

Yn ystod y flwyddyn ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i ymgynghoriadau ar amrywiaeth o faterion sy'n berthnasol i'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys ymateb pellach i adolygiad **Axis II** ar ddyfodol cynlluniau amaeth-amaethyddol. Roedd cyfres o gyfarfodydd a chyflwyniadau'n dilyn hyn.

Parhaodd yr Ymddiriedolaeth i roi cyngor i **Bwyllgor Ymgynghorol Esgobaeth Tyddewi** ar drwyddedu. Cynrychiolwyd yr Ymddiriedolaeth ar nifer o grwpiau eraill, gan gynnwys: grŵp llywio ar gyfer tri phrosiect twristiaeth treftadaeth a reolir gan **PLANED**; **Fforwm y Dreftadaeth Adeiledig**; **Gweithgor Strwythurau Milwrol yr 20fed ganrif**; **Grŵp Peirianyddol Arfordir Caerfyrddin a Bae Abertawe**; **Grŵp Ymgynghorol Cofnodion a Meysydd Tanio De Sir Benfro**; a **Chymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol (ALGO)**

Cofnodwyd nifer o ddarganfyddiadau diddorol wrth i'r Ymddiriedolaeth barhau i gymryd rhan yn y **Cynllun Henebion Cludadwy**, sef system wirfoddol ar gyfer adrodd a chofnodion

darganfyddiadau archaeolegol; roedd y rhain yn cynnwys darn arian efydd o'r Oes Haearn a briodolwyd i Dubnovellaunus a thaleb o'r 17eg ganrif a oedd yn perthyn i Joseph Gleson o Dedham. Gan fod y ddau wrthrych hyn wedi dod o Geredigion, ond eu bod i'w cael fel arfer yn ne-ddwyrain Lloegr, gallai eu tarddle fod yn eilaidd.

Roedd llawer iawn o amser **Archaeoleg Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro** wedi'i dreulio ar brosiect Castell Nanhyfer, gan gynnwys rhywfaint o gyfranogiad yn y cloddio. Treuliwyd peth amser hefyd ar gloddfa **Porth Clew**, ac ar yr arolwg geoffisegol yng **Nghrugiau Cemais**. Rhoddwyd amser hefyd i brosiect **Arfordir**, i drefnu Ysgol Ddydd Archaeoleg Sir Benfro ac i barhau â gwaith achos yr Henebion Cofrestredig.

AROLYGU ARIANNOL

Fel sefydliad y sector gwirfoddol mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod â chryn ddibyniaeth ar gymorth grant gan Cadw a'r Comisiwn Brenhinol. Roedd y cymorth grant hwn yn cyfrif am ychydig dros 44% o gyfanswm adnoddau'r Ymddiriedolaeth (2008-09: 44%). Mae'r Ymddiriedolaeth yn ddiolchgar iawn am y cymorth parhaus hwn.
Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2010, aeth 5% o'r cyfanswm adnoddau a wariwyd ar reoli a gweinyddu'r elusen (2008-09: 8%), ychydig ar gyhoeddusrwydd a hysbysebu a'r gweddill ar wariant elusennol uniongyrchol y gweithgareddau a ddisgrifir uchod.

Mae'r cyfrifon am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2010 yn dangos diffyg o ran incwm dros wariant o £12,787 (2008-09: gwarged £1,189)

TAW

Mae'r ymddiriedolwyr yn tynnu'ch sylw at Nodyn 22 yn y Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol ynglŷn â'r Eitem Eithriadol o ran yr Ymddiriedolaeth yn cofrestru'n hwyr ar gyfer TAW

Polisi wrth gefn

Mae gan yr Ymddiriedolaeth bolisi wrth gefn sydd ei angen er mwyn cynnal gwasanaethau os bydd unrhyw broblemau dros dro yn unrhyw un o'r prif feysydd incwm neu arian, neu os bydd yr Ymddiriedolaeth yn dilyn cynllun ariannol wrth gefn annisgwyl. Y bwriad yw i'r gronfa wrth gefn dalu unrhyw ddiffyg ariannol yn y tymor byr hyd nes y gellid cymryd camau priodol i liniaru'r sefyllfa. Dim ond yn yr amgylchiadau canlynol y câi'r cronfeydd wrth gefn eu defnyddio: costau colli swydd pan na fyddai unrhyw ffynonellau eraill ar ôl; costau gweithredu hanfodol pan na fyddai unrhyw ffynonellau eraill ar ôl; ac wrth gytuno ag unrhyw orddrafft gorfodol. Mae ffigur wrth gefn lleiaf wedi'i gyfrifo ar sail costau colli gwaith chwe aelod o staff o raddau gwahanol.

Sefydlwyd y gronfa wrth gefn yn 2000/2001 gyda swm cychwynnol o £15,000. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu trosglwyddo 10% o unrhyw warged gweithredu, neu £5,000, pa un bynnag oedd isaf, i'r gronfa wrth gefn bob blwyddyn. Oherwydd sefyllfa ariannol anffafriol, ni throsglwyddwyd unrhyw arian i'r gronfa wrth gefn yn 2007-2008 nac yn 2008-09. Ar ddiwedd 2009-10, trosglwyddwyd £10,000 i'r gronfa wrth gefn.

Cronfeydd dynodedig

Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol roedd gan yr Ymddiriedolaeth swm o £2,072 ar gyfer datblygiad parhaus y llwyfan digidol newydd ar gyfer Cyfnod yr Amgylchedd Hanesyddol. Yn ystod y flwyddyn gwariwyd £2,072 o'r gronfa hon ac nid oes unrhyw beth ar ôl.

Adolygu risgiau

Mae'r Pwyllgor Rheoli'n parhau i adolygu'r prif risgiau y mae'r elusen yn dod i gysylltiad â hwy. Mae'r broses hon yn cynnwys adolygu systemau sydd wedi'u sefydlu er mwyn lliniaru'r risgiau hynny. Caiff risgiau mewnol eu lleihau drwy roi gweithdrefnau ar waith ar gyfer awdurdodi'r holl drosglwyddiadau, ynghyd â datblygu system ar gyfer monitro cynnydd prosiectau unigol yn rheolaidd ac ar gyfer sicrhau bod cymorth wrth gefn digonol wedi'i ddarparu ar gyfer sgiliau staff hanfodol. Mae'r gweithdrefnau hyn yn parhau i gael eu hadolygu bob hyn a hyn er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni anghenion yr elusen o hyd.

Rhagolygon 2010-11

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi trafod grant Cadw cymeradwy o £276,751 ar gyfer 2010-11, o'i gymharu â grant cychwynnol o £291,678 yn 2009-10. Mae'r dyfarniad yn is oherwydd bod Cadw wedi rhagweld toriad cyllideb gychwynnol o 5% gyda thoriad ganol blwyddyn o 5% i ddilyn. Yn ogystal, cytunwyd ar £29,930 o arian ar gyfer Cofnod yr Amgylchedd Hanesyddol gan CBHC (mae hyn yn gyllideb sefydlog ar lefelau 2009-10). Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2009-2010, sicrhawyd rhyw £315,221 o ffynonellau eraill ar gyfer 2010-11 (£310,662 ar gyfer blwyddyn 2009-10).

Datganiad ynghylch datgelu gwybodaeth i Archwilwyr

Hyd eithaf gwybodaeth yr Ymddiriedolwyr, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol na ŵyr archwilwyr y cwmni amdani, ac mae pob Ymddiriedolwr wedi cyflawni'r holl gamau sy'n ofynnol ohonynt fel Ymddiriedolwyr er mwyn cael gwybod am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sicrhau bod archwilwyr y cwmni'n gwybod am y wybodaeth honno.

Archwilwyr

Mae Clay Shaw Butler Limited wedi mynegi eu parodrwydd i barhau â'r gwaith.

Drwy orchymyn Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

K Murphy
Ysgrifennydd y Cwmni **1 Medi 2010**